**Cwynion**

Os oes gennych gwyn nad yw gweithdrefnau wedi eu dilyn neu ynglŷn â gwaith sy'n ofynnol yna gallwch gysylltu â rheolwr yr arolygwr i drafod y mater.

Os mai o'r **Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE)** ddaeth yr arolygwr, gallwch siarad neu ysgrifennu at reolwr yr arolygwr a fydd yn archwilio eich cwyn a'ch hysbysu ynglŷn â'r hyn sydd i ddigwydd. Mae'r rhan fwyaf o gwynion yn cael eu datrys yn y modd hwn, ac yn aml iawn yn ddi-oed. Os na chewch eich bodloni mae croeso ichi ysgrifennu at Brif Weithredwr yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch sef Geoffrey Podger, Health and Safety Executive, Rose Court, 2 Southwark Bridge, London SE1 9HS. Bydd yn sicrhau bod eich cwyn yn cael sylw teg a diymdroi. Gallwch hefyd ysgrifennu at eich AS a gofyn iddynt roi sylw i'ch achos gyda'r HSE, gyda Gweinidogion, neu'r Comisiynydd Seneddol dros Weinyddu (yr Ombwdsmon).

Os mai o'r **awdurdod lleol** ddaeth yr arolygwr gallwch gysylltu â rheolwr yr arolygwr a gofyn i'ch cwyn gael ei archwilio. Os na chewch eich bodloni gallwch ddefnyddio gweithdrefn cwynion swyddogol yr awdurdod lleol. Mewn achosion ble bu camweinyddu gallwch hefyd gyfeirio'ch cwyn i Ombwdsmon Llywodraeth Leol Cymru.

**11. <u>Cyngor ynghylch Diogelwch Bwyd i Drefnwyr Digwyddiadau</u>**

Fel trefnydd y digwyddiad, eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod y rheini sy'n gwerthu bwyd yn eich digwyddiad yn werthwyr ag enw da a'u bod yn gwerthu bwyd sy'n ddiogel i'w fwyta. Yn y lle cyntaf, dylech gael gwybodaeth sylfaenol ynghylch y sawl sy'n gwerthu'r bwyd gan gynnwys enw, cyfeiriad, manylion cyswllt, enw'r busnes a'r math o fwyd y byddant yn ei baratoi/werthu. Dylech ofyn hefyd gyda pha awdurdod y mae'r busnes bwyd wedi'i gofrestru ac, o ran diwydrwydd dyladwy, byddai'n ddoeth hefyd i chi gysylltu gyda'r Awdurdod a chadarnhau hanes y busnes. O leiaf pythefnos cyn y digwyddiad, dylech gysylltu gyda'r Tîm Diogelwch Bwyd yn yr Awdurdod Lleol lle cynhelir y digwyddiad a rhoi iddynt fanylion am yr arlwywyr yn eich digwyddiad oherwydd efallai y byddant yn dymuno eu harchwilio yn ystod y digwyddiad. Pan fydd y gwerthwyr bwyd yn cyrraedd, dylech sicrhau mai dim ond y rheini yr ydych eisoes yn gwybod amdanynt sy'n cael masnachu. Efallai y byddwch yn dymuno gwneud rhywfaint o waith siecio sylfaenol i sicrhau bod eu cerbydau yn lân ac mewn cyflwr da, a bod y staff yn lan. Os byddwch yn gweld unrhyw broblemau posib ar yr adeg hon, dylid cymryd camau priodol i sicrhau diogelwch yr holl fwydydd yn eich digwyddiad. Mae dogfen ganllaw o'r enw 'Food Safety Guidance for Events Caterers' wedi'i pharatoi gan Banel Technegol Diogelwch Bwyd Gogledd Cymru. Am ragor o gyngor a chopi o'r ddogfen hon cysylltwch gyda'ch Tîm Diogelwch Bwyd Lleol, os gwelwch yn dda.

# <u>Canllaw Cynghorol ar Ddiogelwch Digwyddiadau Bychain</u>

***Canllaw ymarferol i ofynion iechyd a diogelwch a chyngor am ymarfer gorau ar gyfer trefnwyr digwyddiadau***

CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
CONWY CYNGOR BWRDEISTREF SIROL COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR Sir Ddinbych Denbighshire COUNTY COUNCIL
CYNGOR GWYNEDD COUNCIL
CYNGOR Sir y Fflint Flintshire COUNTY COUNCIL
wrexham COUNTY BOROUGH COUNCIL CYNGOR BWRDEISTREF SIROL wrecsam

**Cynnwys** **Tudalen**


1. Rhagymadrodd 3

1.1 Cyfrifoldeb am y digwyddiad 5
1.2 Yswiriant atebolrwydd cyflogwyr/cyhoeddus 6

2. Iechyd a diogelwch

2.1 Ystyriaethau cyfreithiol cyffredinol 7
2.2 Asesiad risg
2.3 Lleoliad/safle 8
2.4 Proffil y dorf 10
2.5 Rhwystrau diogelwch
2.6 Hysbysiadau gwybodaeth ac arwyddion
2.7 Adeileddau dros dro 11
2.8 Diogelwch tân 12
2.9 Gosodiadau trydanol a goleuadau
2.10 Diogelwch nwy 14
2.11 Rheoli cymorth cyntaf
2.12 Stiwardiaid a diogelwch 15
2.13 Cysylltiadau 16
2.14 Cyfleusterau lles 17
2.15 Arlwyo, deunyddiau marchnata, atyniadau ac effeithiau arbennig 18
2.16 Gwersylla

3. Rheoli Sŵn 20

4. Darllen Cymeradwy 21

5. Rhagor o Wybodaeth a Chyfarwyddyd 25

6. Cydnabyddiaeth 26

7. Enghraifft Sylfaenol - Rhestr Wirio Cyn ac yn Ystod Digwyddiad 27

8. Templed Asesu Risg 28

9. Manylion Cyswllt Awdurdodau Gorfodi Gogledd Cymru 29

10. Beth i Ddisgwyl pan fo Arolygwr yn Ymweld 30

11. Cyngor Diogelwch Bwyd 32




- *Erlyn*

Mewn rhai achosion gall yr arolygwr ystyried ei bod hi hefyd yn angenrheidiol cychwyn erlyniad. Gwneir penderfyniadau ynglŷn â pha un ai i erlyn ar sail egwyddorion Polisi Gorfodaeth yr Awdurdod Gorfodi. Mae deddf iechyd a diogelwch yn rhoi ystod sylweddol i lysoedd gosbi troseddwyr ac atal eraill. Er enghraifft, mae methu â chydymffurfio ag hysbysiad gwella neu wahardd, neu orchymyn unioni gan y llys, yn golygu dirwy o hyd at £20,000 neu 12 mis o garchar, neu'r ddau. Gall llysoedd uwch osod dirwyon diderfyn ac mewn rhai achosion carchar am gyfnod hirach.

Gyda Deddf Iechyd a Diogelwch (Troseddau) 2008 (a ddaeth i rym yn Ionawr 2009) cynyddwyd y dirwyon a rhoi mwy o bwerau dedfrydu i lysoedd ar gyfer rhai troseddau iechyd a diogelwch. Mae testun llawn y Ddeddf hon ar gael yn: http://www.opsi.gov.uk/acts/acts2008/ukpga_20080020_en_1

(D.S. Yn achos marwolaeth sy'n gysylltiedig â'r gwaith, bydd yr Heddlu yn ystyried archwilio trosedd Dynladdiad Corfforaethol, os yw hynny'n briodol.)

**Apeliadau**

Hysbysir y deiliad dyletswydd drwy lythyr ynglŷn â'u hawl i apelio i Dribiwnlys Cyflogaeth wedi derbyn hysbysiad gwella neu wahardd. Hefyd ceir eglurhad o'r mecanwaith apelio ar du cefn yr hysbysiad. Bydd y deiliad dyletswydd yn cael gwybod:

1. Sut i apelio, gyda ffurflen i'w defnyddio i apelio
2. Ble ac o fewn pa gyfnod y gellir cyflwyno apêl; a
3. Bod y weithred adferol sy'n ofynnol yn ôl yr hysbysiad gwella i'w gohirio tra'u bod yn disgwyl canlyniad yr apêl.

**Gwybodaeth ar gyfer gweithwyr neu eu cynrychiolwyr**

Yn ystod ymweliad arolygu arferol bydd arolygwr yn disgwyl gwirio bod y rhai hynny sydd â gofal, e.e. cyflogwyr, wedi sicrhau bod trefniadau ar gyfer ymgynghori gyda, a hysbysu gweithwyr neu eu cynrychiolwyr, e.e. cynrychiolwyr diogelwch, ynglŷn â materion iechyd a diogelwch. Mae'r trefniadau hyn yn ofynnol yn ôl y gyfraith.

Bydd arolygwr yn cwrdd â'r gweithwyr, neu'n siarad gyda nhw neu eu cynrychiolwyr yn ystod ymweliad, lle bynnag y bo hynny'n bosib, heblaw bod hynny'n amhriodol oherwydd natur yr ymweliad. Pan fyddent yn cwrdd, dylid rhoi cyfle bob tro i'r gweithwyr neu eu cynrychiolwyr, fedru siarad yn breifat gyda'r arolygwr, os mai dyma yw eu dymuniad.

Bydd yr arolygwr yn darparu gwybodaeth benodol ar gyfer gweithwyr neu eu cynrychiolwyr pan fo hynny'n angenrheidiol i ddibenion eu hysbysu ynglŷn â materion all effeithio eu hiechyd, diogelwch a'u lles. Mae'r wybodaeth yma'n ymwneud â'r gweithle neu weithgaredd sy'n digwydd yno, a gweithred a gymerodd yr arolygwr neu weithred arfaethedig.

Mae'r math o wybodaethau y bydd arolygwr yn ei darparu yn cynnwys:

- Materion y mae arolygwr yn eu hystyried i fod yn bryder difrifol;
- Manylion unrhyw weithred gorfodi a gymerodd yr arolygwr; a
- Bwriad i erlyn y busnes (ond nid cyn hysbysu'r deiliad dyletswydd).

Yn dibynnu ar yr amgylchiadau, gall yr arolygwr ddarparu'r wybodaeth hon ar lafar neu'n ysgrifenedig.

## 10. BETH I DDISGWYL PAN FO AROLYGWR IECHYD A DIOGELWCH YN YM-WELD

**(Canllaw byr ar gyfer busnesau, gweithwyr a'u cynrychiolwyr)**

**Pwy sy'n gorfodi'r ddeddf iechyd a diogelwch?**

Gorfodir y ddeddf iechyd a diogelwch gan arolygwyr o'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) neu arolygwyr o'r awdurdod lleol.

Mae gan arolygwyr hawl i fynd i mewn i unrhyw weithle heb rybudd, er mae'n bosib y byddent yn rhoi rhybudd lle mae'r arolygwr o'r farn bod hynny'n briodol. Yn ystod ymweliad archwilio arferol byddai arolygwr yn disgwyl edrych ar y gweithle, y gweithgareddau gwaith, sut rydych yn rheoli iechyd a diogelwch, a gwirio eich bod yn cydymffurfio â'r ddeddf iechyd a diogelwch. Gall yr arolygwr gynnig cyfarwyddyd a chyngor i'ch helpu. Mae'n bosib y bydd ef/hi hefyd am siarad gyda gweithwyr a'u cynrychiolwyr, cymryd lluniau a samplau, cyflwyno rhybuddion gwella a chymryd camau os oes perygl i iechyd a diogelwch sy'n gofyn am sylw brys.

**Gorfodi deddf iechyd a diogelwch**

Wedi darganfod tor-cyfraith iechyd a diogelwch, bydd yr arolygwr yn penderfynu sut i weithredu. Bydd y weithred yn ddibynnol ar natur y tor-cyfraith, ac fe'i seilir ar yr egwyddorion sydd i'w cael ym Mholisi Gorfodi'r Awdurdod Gorfodi priodol (sef un ai'r HSE neu eich Awdurdod Lleol/Cyngor). Dylai'r arolygwr ddweud wrth y gweithwyr neu eu cynrychiolwyr pa weithred a gymerwyd, neu'r hyn sy'n angenrheidiol i ddibenion eu hysbysu ynghylch materion sy'n effeithio eu hiechyd, diogelwch a'u lles.

Gall arolygwyr gymryd camau gorfodi mewn sawl ffordd i ddelio â thor-cyfraith. Yn y rhan fwyaf o achosion y rhain yw:

- *Anffurfiol*

Pan fo'r tor-cyfraith yn weddol fach, gall yr arolygwr ddweud wrth y deiliad dyletswydd, er enghraifft, y gweithiwr neu'r contractwr, beth i wneud i gydymffurfio â'r gyfraith, ac egluro pam. Bydd yr arolygwr, ar gais, yn ysgrifennu i gadarnhau unrhyw gyngor, ac i wahaniaethu rhwng gofynion cyfreithiol a chyngor ar ymarfer gorau.

- *Hysbysiad gwella*

Ble mae'r tor-cyfraith yn fwy difrifol, gall yr arolygwr arwyddo hysbysiad gwella i ddweud wrth y deiliad dyletswydd bod rhaid gwneud rhywbeth i gydymffurfio â'r gyfraith. Bydd yr arolygwr yn trafod yr hysbysiad gwella ac, os yn bosib, yn datrys unrhyw anghytundeb cyn ei arwyddo. Mae'r hysbysiad yn dweud beth sydd i'w wneud, pam ac erbyn pryd. Rhoddir terfyn amser ar gyfer gweithredu i unioni, sydd o leiaf 21 diwrnod, i ganiatáu i'r deiliad dyletswydd apelio i Dribiwnlys Cyflogaeth os dymunent (gweler 'Apeliadau' isod). Gall yr arolygwr gymryd camau cyfreithiol pellach os nad ydynt yn cydymffurfio â'r hysbysiad o fewn y terfyn amser a nodir.

- *Hysbysiad gwahardd*

Pan fo gweithgaredd yn cyflwyno, neu yn mynd i gyflwyno, perygl o niwed personol difrifol, gall yr arolygwr arwyddo hysbysiad gwahardd sy'n gwahardd y gweithgaredd ar unwaith neu wedi cyfnod penodol, a'i wahardd rhag ail-gychwyn nes bo'r weithred unioni wedi ei chwblhau. Bydd yr hysbysiad yn egluro pam fod y weithred yn angenrheidiol. Bydd y deiliad dyletswydd yn derbyn gwybodaeth ysgrifenedig am yr hawl i apelio i Dribiwnlys Cyflogaeth (gweler 'Apeliadau' isod).



## 1. RHAGYMADRODD

Mae'r canllaw hwn wedi ei seilio ar egwyddorion rheoli iechyd a diogelwch ac asesu risg. Mae'r rhain yn cydnabod y bydd pob digwyddiad yn wahanol ac y bydd gofyn am gyfluniad penodol o elfennau, rheoli, gwasanaethau a darpariaethau. Cynghorir pob trefnydd digwyddiad i ddefnyddio'r wybodaeth a geir yn y canllaw hwn fel sail ar gyfer cynllunio'r gofynion ar gyfer eu digwyddiad.

Yn achos cyflogwyr neu bersonau hunangyflogedig, mae cydymffurfio gyda deddfwriaeth iechyd a diogelwch a rhagofalon tân yn ofynion cyfreithiol. Nid oes modd i'r canllaw hwn fod yn rhagnodol o ran gofynion penodol ar gyfer digwyddiadau unigol am fod rhaid i'r rhain gael eu pennu gan asesiad risg.

Ym mhob achos bydd mesurau rhagofalus ac ataliol (neu reoli) priodol yn ddibynnol ar ystod o ffactorau megis:

- maint, lleoliad a natur y digwyddiad,
- pa un ai a yw'r digwyddiad dan do neu yn yr awyr agored,
- proffil a dynameg y gynulleidfa/dorf,
- pa un ai a yw contractwyr i wneud rhai tasgau,
- presenoldeb masnachwyr, effeithiau arbennig,
- hygyrchedd ar gyfer gwasanaethau brys ac ati.

Cyfrifoldeb y person(au) sydd â'r ddyletswydd i gydymffurfio â'r gyfraith (gelwir yn aml yn 'ddeiliad dyletswydd') yw pennu a gweithredu rhagofalon addas a digonol.

Mae'r cyhoeddiad hwn yn adnabod rhai o'r peryglon tebyg sydd rhaid eu hystyried, ac yn cynnig canllaw ar sut i fynd i'r afael â hwy (mae'n bosib y bydd rhai ohonynt neu bob un yn berthnasol i'ch digwyddiad). Mae'r adran **'materion i drefnwyr eu hystyried'** yn cynnig cyngor ynghylch gweithredoedd awgrymedig i'ch helpu gyda mesurau rheoli peryglon ac i gydymffurfio â'r gyfraith. Mae'n debygol y bydd llawer o'r gweithredoedd a restrir yn cael eu hystyried i fod yn rhagofalon gofynnol, yn ddibynnol ar gasgliadau a chanlyniad eich asesiadau risg. Mae cymhwyso ymagwedd asesu risg i nodweddion unrhyw ddigwyddiad yn galluogi deiliaid dyletswydd i benderfynu pa elfennau sy'n berthnasol ac i asesu'r lefel a'r math o ddarpariaeth sydd ei hangen ar gyfer y digwyddiad hwnnw.

Mae'r wybodaeth a geir yn y canllaw hwn wedi ei hysgrifennu'n bennaf i fod yn gyngor ar gymhwyso Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 (DIDG) a Rheoliadau cysylltiol mewn digwyddiadau bach a chanolig eu maint o wahanol fath.

Nid roddir sylw yma i ddigwyddiadau mwy eu maint megis cyngherddau roc mewn stadiwms chwaraeon a dylid edrych ar ganllawiau manwl, mwy penodol a restrir yn adran Darllen Cymeradwy.

Bydd llawer o ddigwyddiadau yn cynnwys gweithgareddau a ddaw o fewn y diffiniad "gweithgaredd trwyddedadwy" i ddibenion Deddf Trwyddedu 2003. Gyda rhai eithriadau, mae "gweithgaredd trwyddedadwy" yn cynnwys:

- Gwerthiant adwerthol o alcohol,
- Darparu adloniant (e.e. cerddoriaeth a dawnsio, cerddoriaeth fyw, drama, ffilm, digwyddiad chwaraeon dan do),

- Lluniaeth yn hwyr yn y nos (cyflenwi bwyd a diod boeth i'r cyhoedd eu bwyta ar, neu oddi ar yr eiddo (gan gynnwys unedau symudol) rhwng 11pam a 5am),
- Cyfuniad o'r uchod.

Fodd bynnag, gellir defnyddio elfennau o'r canllaw hwn fel templed ar gyfer trefnu digwyddiadau cyhoeddus nad sy'n "weithgaredd trwyddedadwy".

Nid yw'n anarferol i fathau penodol o ddigwyddiad sy'n cynnwys "gweithgaredd trwyddedadwy" i fod ag angen Trwydded Safle am gyfnod y digwyddiad dan Ddeddf Trwyddedu 2003. Fodd bynnag, yn achos digwyddiadau llai (llai na 500 o bobl) am gyfnod byr (llai na 96 awr), mae'n bosib na fydd raid i drefnyddion gael Trwydded Safle ond bydd gofyn iddynt roi Rhybudd o Ddigwyddiad Dros Dro i'r Awdurdod Trwyddedu (gweler y dogfennau canllaw yn Adran Drwyddedu gwefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn www.wrecsam.gov.uk <http://www.wrecsam.gov.uk> neu cysylltwch â'r Adran Drwyddedu ar y rhif a geir yn adran 'Rhagor o Wybodaeth a Chyfarwyddyd' o'r canllaw hwn am ragor o gyngor).

Yn ymarferol, does dim gwahaniaeth rhwng gweithredu deddf iechyd a diogelwch mewn digwyddiad trwyddedig ac un didrwydded. Mae'r gwahaniaeth yn yr ystyriaeth all yr Heddlu, y Gwasanaeth Tân, Iechyd yr Amgylchedd (Rheoli Sŵn), Rheolydd Iechyd a Diogelwch, Safonau Masnachu neu Wasanaethau Cymdeithasol (Amddiffyn Plant), sef yr 'awdurdodau cyfrifol', osod amodau mwy manwl mewn perthynas â'r pedwar amcan trwyddedu, a ddaw yna i fod yn ofynion y Drwydded Safle. Y pedwar amcan trwyddedu yw:

- Atal trosedd ac anhrefn.
- Diogelu'r cyhoedd.
- Atal niwsans cyhoeddus.
- Diogelu plant rhag niwed.

Pa un ai a ydych yn bwriadu cynnal hwylddydd, ffair, gŵyl, parti stryd gwisg ffansi, gig bychan, cyngerdd, carnifal, sioe leol neu ddawns sgubor fe ddylai bod gwybodaeth ddefnyddiol ar eich cyfer yn y canllaw hwn.

Hyd yn oed gyda digwyddiadau bach dan do mae'n werth cofio eich bod chi a'ch cyd-drefnwyr yn gyfreithiol gyfrifol am iechyd a diogelwch eich staff, gwirfoddolwyr, cynorthwywyr a'r cyhoedd. Byddai hyn yn cynnwys digwyddiadau megis ffair sborion, cyflwyniadau ac arddangosfeydd mewn neuadd bentref, ysgol neu eglwys a digwyddiadau codi arian a drefnir gan grwpiau fel CRhA ysgolion, eglwysi, grwpiau cymunedol a gwirfoddol a chymdeithasau elusennol ac ati.

Nod y canllaw hwn yw ceisio helpu pobl sy'n trefnu digwyddiadau er mwyn i'r digwyddiad fynd rhagddo'n ddiogel. Trefnydd y digwyddiad, boed yn unigolyn, yn gymdeithas elusennol neu gymunedol sy'n bennaf gyfrifol, ac o dan orfodaeth gyfreithiol, am ddiogelu iechyd, diogelwch a lles pawb sy'n gweithio yn y digwyddiad neu'n ei fynychu.

Mae cynllunio a rheoli da yn hanfodol i lwyddiant unrhyw ddigwyddiad. Rydym yn argymell bod pob trefnydd yn defnyddio penawdau'r adrannau sydd yn y canllaw hwn yn fframwaith neu restr wirio ar gyfer cynllunio'r gofynion ar gyfer eu digwyddiad penodol hwy ac i amlygu'r prif agweddau sydd i'w hystyried wrth asesu'r peryglon.

Nid yw'r canllaw hwn yn disodli'r angen i drefnyddion digwyddiad geisio cyngor o ffynonellau eraill ac yn enwedig i ymgynghori â swyddogion perthnasol yr Awdurdod Lleol a'r gwasanaethau brys. Bydd y swyddogion hyn yn barod i gynnig cyngor a chymorth gan gynnwys a oes angen



## 9. MANYLION CYSWLLT AWDURDODAU GORFODI GOGLEDD CYMRU – IECHYD A DIOGELWCH

This guide is not exhaustive and cannot cover every circumstance. If you require any further advice on the subject of this guide or any other related matter contact:

Cyngor Sir Ynys Môn
Iechyd yr Amgylchedd, Gwasanaethau Amgylcheddol, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni, Ynys Môn, LL7 7TW
Teleffon: 01248 75283
E-bost: environmentalhealth@anglesey.gov.uk
Wefan: www.anglesey.gov.uk

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Gwasanaethau Rheoleiddio, Y Swyddfeydd Dinesig, Bae Colwyn, Conwy, LI29 8AR
Teleffon: 01492 575110/575221
E-bost: public.protection@conwy.gov.uk
Wefan: www.conwy.gov.uk

Cyngor Sir Ddinbych
Tîm Iechyd a Diogelwch, Iechyd yr Amgylchedd, Trem Clwyd, Rhuthun, LI15 1QA
Teleffon: 01824 708151
E-bost: envhealth@denbighshire.gov.uk
Wefan: www.denbighshire.gov.uk

Cyngor Sir y Fflint
Gorfodaeth Iechyd a Diogelwch, Is-adran Gwarchod y Cyhoedd, Cyfarwyddiaeth yr Amgylchedd, Cyngor Sir y Fflint, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, Sir y Flint, CH7 6NH
Teleffon: 01352 703381
Wefan: www.flintshire.gov.uk

Cyngor Gwynedd
Tîm Gorfodaeth Iechyd a Diogelwch, Gwarchod y Cyhoedd, Penrallt, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1BN
Teleffon: 01286 682728
E-bost: foodandhealthandsafety@gwynedd.gov.uk
Wefan: www.gwynedd.gov.uk

Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Adran Tai a Diogelu'r Cyhoedd, Diogelu'r Cyhoedd, Stryd Fawr, Rhiwabon, Wrecsam, LL14 6NH
Teleffon: 01978 292040
E-bost: environmental@wrexham.gov.uk
Wefan: www.wrexham.gov.uk

Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch Rhanbarthol (HSE) – Gogledd Cymru
HSE, Unedau 7 ac 8, Cwrt Edison, Rhodfa Ellice, Parc Technoleg Wrecsam, Wrecsam, LL13 7YT
Teleffon: 01978 316000
Wefan: www.hse.gov.uk

## 8. TEMPLED ASESU RISG

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Wedi ei gwblhau** | | | | | |
| **Gweithredu erbyn pryd?** | | | | | |
| **Gweithredu gan bwy?** | | | | | |
| **Pa weithred bellach sydd ei hangen?** | | | | | |
| **Beth ydych eisoes yn ei wneud?** | | | | | |
| **Pwy allay gael eu niweidio a sut?** | | | | | |
| **Beth yw'r peryglon?** | | | | | |



Trwydded Safle ai peidio. Mae canllaw manylach i'w gael yng nghyhoeddiad yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, HSG195, "***Cyfarwyddyd Diogelwch Digwyddiadau: arweiniad i iechyd a diogelwch a lles mewn digwyddiadau cerddorol a thebyg"*** *(gweler Darllen Cymeradwy. Noder: mae HSG195 i'w adolygu dros y ddwy flynedd nesaf.*

1.1 **Cyfrifoldeb am y digwyddiad a chynllunio**

Wrth gynllunio unrhyw ddigwyddiad (chwaraeon neu arall) dylid enwi trefnydd o'r cyfle cyntaf (gweler 2.1 – Ystyriaethau cyfreithiol cyffredinol).

Ar gyfer digwyddiadau mwy, mae ymarfer da yn dweud y dylid llunio strwythur rheoli manwl sy'n adnabod yn ffurfiol pwy sy'n gyfrifol, am beth a hefyd cynllun diogelwch ar gyfer y digwyddiad.




**Cynllunio, Gwneud, Gwirio, Gweithredu – Model ar gyfer Rheoli Digwyddiad Diogel**
(Addaswyd o ddiagram sy'n dangos Cylchred PDCA gan Karn G. Bulsuk, http://en.wikipedia.org/wiki/File:PDCA_Cycle.svg Trwyddedir ail-ddefnyddio a dosbarthiad y ddelwedd hon dan Briodoliad Deunydd Creadigol Cyffredin 3.0 Trwydded Ddi-borth http://creativecommons.org/licenses/by/3.0/ )

**Cynllunio ar gyfer diogelwch**

Nod cynllunio effeithiol yw atal drwy adnabod, dileu a rheoli peryglon a risgiau. Bydd yr amser y dylech ei neilltuo ar gyfer y gwaith cynllunio yn ddibynnol ar faint, math a hyd y digwyddiad. Gellir rhoi sylw i faterion cynllunio fesul rhan – gweler y diagram llif drosodd.

**CAMAU CYNLLUNIO DIGWYDDIAD AR GYFER SAFLE NEU LEOLIAD ENGHREIFFTIOL**

**Paratoi / y 'cyfnod cyn'**

Gall gynnwys cynllunio cynllun y lleoliad, dethol gweithwyr cymwys, dethol contractwyr ac is-gontractwyr, adeiladu llwyfannau/ffyrdd dros dro/pebyll mawrion/ffensys ac ati.

↓

**'Llwyth i mewn'**

Gall gynnwys cynllunio ar gyfer dosbarthu a gosod offer a gwasanaethau mewn modd diogel, i'w defnyddio yn y digwyddiad, e.e. offer llwyfan i'w defnyddio gan y perfformwyr, goleuo, systemau sain (PA) ac ati.

↓

**Y Digwyddiad ei Hun** (e.e. y cyfnod bydd y ffair/sioe/cyngerdd/gig ar agor ar gyfer y cyhoedd) Gall gynnwys cynllunio ar gyfer strategaethau rheoli torfeydd effeithiol, strategaethau rheoli trafnidiaeth a threfniadau lles. Strategaethau cynllunio ar gyfer delio â thân, cymorth cyntaf,

↓

**'Llwyth allan' a chlirio**

Rhaid cynllunio ar gyfer symud offer, cerbydau a gwasanaethau yn ddiogel oddi ar y safle, a gall gynnwys cynllunio i reoli peryglon unwaith i'r digwyddiad orffen a bod yr isadeiledd yn cael ei glirio neu ddatgymalu. Mae peryglon yn perthyn i'r gwaith o gasglu sbwriel a gwaredu dŵr

1.2 **Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus a'r Cyflogwr**

Argymhellir yn gryf bod yswiriant atebolrwydd cyhoeddus wedi ei sicrhau cyn i ddigwyddiad gael ei gynnal. Gall diffyg yswiriant o'r fath olygu na fydd y digwyddiad yn cael ei gefnogi gan yr awdurdodau cyhoeddus a'r gwasanaethau brys.

Os ydych yn cyflogi pobl yn uniongyrchol yna fe'ch atgoffwn fod yswiriant atebolrwydd cyflogwr yn ofyniad cyfreithiol.



## 7. ENGHRAIFFT SYLFAENOL– RHESTR WIRIO CYN AC YN YSTOD DIGWYDDIAD

**Penodwch bersonau i wirio'r materion hyn a'u cyflawni neu adrodd yn ôl**

| | Sylwadau |
|---|---|
| DIOGELWCH Y LLEOLIAD/SAFLE | |
| A yw'r safleoedd heb beryglon?<br>(h.y. wyneb y ddaear/lloriau yn wastad; dim peryglon ba | |
| A yw pob atyniad/gweithgaredd/adeiledd wedi ei gwblhau, ei wirio, a gweithwyr yno ar eu cyfer? | |
| A yw adeileddau/seddi yn gadarn a diogel; grisiau/llwyfannau ac offer wedi eu diogelu; rhwystrau/ffensys amddiffyn yn gadarn heb achosi perygl? | |
| MYNEDFEYDD/ALLANFEYDD | |
| A oes digon o fynedfeydd ac allanfeydd ar agor, gydag arwyddion clir ac wedi eu staffio i reoli mynediad lle bynnag y mae angen? | |
| A yw pob ardal gylchdroi, grisiau/llwybrau dianc/allanfeydd yn glir bed rwystrau gyda phob giât/drws heb ei gloi? | |
| RHEOLI'R DYRFA | |
| A yw'r ystafell reoli'n weithredol, gyda'r cysylltiadau a'r systemau cyhoeddi yn gweithio? | |
| A yw'r nifer ofynnol o stiwardiaid yn eu lleoliadau penodol; wedi eu cyfarwyddo'n llwyr ynglŷn â'u dyletswyddau ac yn gwisgo siacedi/tabardau? | |
| TRYDAN | |
| A yw'r gosodiadau wedi eu cwblhau/gwirio (yn ôl yr angen gan berson cymwys); y ceblau/offer wedi eu gwirio gan berson cymwys, yn ddiogel/wedi eu diogelu a draw oddi wrth fannau lle mae'r cyhoedd yn cylchdroi? | |
| GOLEUADAU | |
| A oes goleuadau arferol ac ar gyfer argyfwng wedi eu darparu, yn gweithio'n iawn ac wedi eu goleuo lle bynnag y mae angen? | |
| CYFLEUSTERAU MEDDYGOL | |
| A oes ymarferwyr cymorth cyntaf wedi eu hyfforddi'n ddigonol ar y safle; a oes ystafell wedi ei harwyddo'n glir ar gael (gyda chyflenwad o ddŵr iddi) i fod yn safle cymorth cyntaf? | |
| RHAGOFALON TÂN | |
| A yw'r offer ymladd tân yn eu lle; a sbwriel/defnyddiau hylosg wedi eu cadw draw oddi wrth bebyll/adeileddau? A yw'r stiwardiaid/staff wedi eu cyfarwyddo? | |
| TOILEDAU | |
| A oes lle ar gael ar gyfer toiled sydd wedi ei arwyddo'n glir (gan gynnwys ar gyfer pobl ag anableddau); a oes trefniadau wedi eu gwneud i'w cynnal a'u cadw yn ystod y digwyddiad? | |
| SBWRIEL | |
| A oes digon o finiau wedi eu darparu o amgylch y safle a threfniadau wedi eu gwneud i'w gwagio yn ystod y digwyddiad? | |

**NAPIT (National Association of Professional Inspectors and Testers)**
**Prif Swyddfa: 4th Floor, Mill 3, Pleasley Vale Business Park, Mansfield, Nottinghamshire, NG19 8RL.**

**E-bost:** info@napit.org.uk,
Gwefan: **www.napit.org.uk**
**Teleffon:** 0870 4441392
**Ffacs:** 0870 4441427

**UKLPG** yw'r gymdeithas fasnachu ar gyfer y diwydiant nwy petrolewm hylifol yn y DU. Mae'n cynrychioli cwmnïau sy'n cynhyrchu, dosbarthu, darparu offer a gwasanaeth, a thrawsnewid cerbydau. Ffurfiwyd UKLPG drwy uno'r *LPG Association* (LPGA) a'r *Association for Liquid Gas Equipment and Distributors* (ALGED) ym mis Ionawr 2008.

Ymholiadau e-bost i: mail@uklpg.org
Mae cyhoeddiadau diogelwch a thaflenni cyngor ar gael drwy eu gwefan: www. uklpg.org

**Awdurdod y Diwydiant Diogelwch (SIA) PO Box 1293, Lerpwl, L69 1AX**
Teleffon 0844 892 1025
www.the-sia.org.uk

**Cofrestr Diogelwch Nwy, PO Box 6804, Basingstoke, RG24 4NB**
Teleffon 0800 408 5500
www.GasSafeRegister.co.uk

## 6. CYDNABYDDIAETH

Dymuna Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam gydnabod y mudiadau a'r unigolion canlynol am eu cymorth wrth baratoi'r canllaw hwn:

- Adran Diogelu'r Cyhoedd Cyngor Sir Penfro a roddodd eu caniatâd i gynnwys eu cyfarwyddyd diogelwch digwyddiadau gael ei ddefnyddio i fod yn sail ar gyfer y cyhoeddiad hwn.

- Ymgynghorai sy'n ddeiliaid diddordeb megis cynrychiolwyr Gwasanaethau Brys Gogledd Cymru (o wahanol adrannau), yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE), a chynrychiolwyr amrywiol o blith deiliaid diddordeb trefnwyr digwyddiadau o gymuned fusnes Wrecsam.



## 2. IECHYD A DIOGELWCH

2.1 **Ystyriaethau cyfreithiol cyffredinol**

Bydd y rhan fwyaf o ddigwyddiadau sy'n cael sylw yn y cyhoeddiad hwn yn cynnwys gweithgaredd gwaith (h.y. bydd o leiaf un person yn cael ei gyflogi/ei chyflogi, er enghraifft yn ystod y cyfnod paratoi, y digwyddiad ei hun neu'r clirio wedi'r digwyddiad) ac felly'n destun Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith ac ati 1974 (DIDG) a deddfwriaeth atodol.

Mae'r ddeddfwriaeth hon yn gosod dyletswyddau mewn perthynas ag iechyd a diogelwch pawb sydd yn ymwneud â rheoli'r digwyddiad. Mae'r berthynas gyfreithiol rhwng hyrwyddwyr, trefnwyr y digwyddiad, contractwyr, arddangoswyr/masnachwyr, perfformwyr, perchnogion tir/eiddo ac ati yn gallu bod yn agwedd gymhleth iawn ar y gyfraith, felly mae'n bwysig sefydlu cyfrifoldebau iechyd a diogelwch clir. Mae hi felly'n briodol adnabod pawb sydd ynghlwm wrth y digwyddiad sydd â chyfrifoldeb iechyd a diogelwch. Yn y rhan fwyaf o achosion gyda threfnydd y digwyddiad y mae'r prif gyfrifoldeb. Mae profiad yn awgrymu mai doeth yw cytuno'n ysgrifenedig ar gyfrifoldebau cytundebol.

Fe'i hystyrir i fod yn ymarfer da i grŵp neu fudiad sydd â gweithwyr gwirfoddol ddarparu'r un lefel o amddiffyniad iechyd a diogelwch ag y byddent yn ei wneud mewn perthynas gweithiwr/cyflogwr, pa un a oes dyletswyddau cyfreithiol penodol ai peidio. (Gweler canllaw'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) ar weithwyr Elusen a Gwirfoddol yn adran Darllen Cymeradwy).

Mae'r tri gofyniad isod, ynghyd â'r gofynion ar gyfer asesu peryglon, yn perthyn yn agos iawn at ei gilydd, a gellir eu hystyried gyda'i gilydd:

- Mae adran 2(1) o'r DIDG yn **mynnu** bod cyflogwyr yn sicrhau iechyd, diogelwch a lles eu gweithwyr cyn belled ag y mae'n rhesymol o ymarferol;

- Mae adran 2 (2)(a) o'r DIDG yn **mynnu** bod cyflogwyr yn darparu a chynnal a chadw peiriannau sefydlog a systemau gweithio sydd, cyn belled ag y mae'n rhesymol o ymarferol, yn ddiogel a heb beryglon i iechyd;

- Mae adran 3 o'r DIDG yn **mynnu** bod cyflogwyr yn cynnal eu gweithredoedd yn y fath fodd i sicrhau, cyn belled ag y mae'n rhesymol o ymarferol, nad yw pobl nad ydynt yn weithwyr cyflogedig iddynt (e.e. gwahoddedigion, aelodau o'r cyhoedd a chontractwyr) yn agored i beryglon iechyd a diogelwch. (Mae'r Adran hon hefyd yn gosod dyletswydd debyg ar yr hunangyflogedig tuag atynt hwy eu hunain a phobl eraill).

2.2 **Gofynion asesu risg**

Mae Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999 yn **mynnu** bod cyflogwyr yn cynnal asesiad risg addas a digonol o'r:

- peryglon iechyd a diogelwch y mae eu gweithwyr yn agored iddynt wrth eu gwaith; a'r
- peryglon i iechyd a diogelwch pobl eraill yn sgîl neu'n gysylltiedig â gwaith y cyflogwr, er mwyn adnabod y mesurau sydd eu hangen i gydymffurfio â deddfwriaeth iechyd a diogelwch.

Gosodir yr un ddyletswydd ar bobl hunangyflogedig mewn perthynas â'u hiechyd a'u diogelwch eu hunain a phobl eraill.

Dylid cynnal asesiad risg ar gyfer pob cyfnod o'r digwyddiad gan gynnwys paratoi'r safle/ lleoliad, y digwyddiad a dymchwel neu glirio'r safle/lleoliad. (Gweler y diagram llif ar y dudalen flaenorol).

Dangosir yr elfennau gofynnol ar gyfer asesiad risg mewn print bras isod:

- **Adnabod y peryglon** sy'n gysylltiedig â'r digwyddiad h.y. unrhyw beth all achosi niwed. Gellir gwneud hyn drwy ymchwilio mewn cyhoeddiadau penodol, ymweld â'r safle neu'r lleoliad a chael manylion peryglon penodol gan gontractwyr, busnesau arlwyo a chyflenwyr effeithiau arbennig ac ati;
- **Penderfynu pwy allai gael ei niweidio a sut;**
- **Asesu lefel y risg;**
- **Adnabod rhagofalon priodol a digonol**; a
- **Chofnodi eich darganfyddiadau**. (Os oes gennych lai na phum gweithiwr nid oes angen ichi ysgrifennu dim, er bod cadw cofnod ysgrifenedig o'r hyn rydych yn ei wneud yn beth ddefnyddiol). (Os ydych yn gwneud cais am drwydded safle dan Ddeddf Trwyddedu 2003, dylid rhestru'r rhagofalon perthnasol dan adran 'diogelu'r cyhoedd' o'r amcanion trwyddedu).

Bydd yr asesiad risg cyffredinol yn gymorth i benderfynu pa reolaethau neu ragofalon y bydd rhaid i chi eu rhoi yn eu lle er mwyn rheoli'r digwyddiad yn ddiogel. Dylai hyn gynnwys cynllunio, cyfathrebu ac ymarfer eich gweithdrefnau argyfwng.

(Ceir templed asesu risg gwag ar dudalen olaf o'r canllaw hwn. Am ragor o wybodaeth gweler adran Rheoli Risg o wefan HSE sy'n cynnwys asesiadau risg enghreifftiol yn www.hse.gov.uk/risk/index.htm. Un o'r enghreifftiau a welir ar y wefan yw clwb nos, sy'n esboniad defnyddiol o sut i ddogfennu asesiad risg ar gyfer lleoliad cerddoriaeth.)

2.3 **Y lleoliad/safle**

Ar gyfer pob digwyddiad, mae angen digon o le i'r cyhoedd symud o gwmpas stondinau, reidiau, y perfformiad/llwyfan, arena/mannau arddangos ac ati, a chael llwybrau di-rwystr i'r allanfeydd. Mae hi'n hynod bwysig sicrhau mewn digwyddiadau dan do nad yw stondinau/ nwyddau yn rhwystro llwybrau gadael a drysau.

Dylai safleoedd allanol yn cynnwys y maes parcio, llwybrau cerdded ac unrhyw lwyfan/ adeileddau fod yn addas i'w defnyddio mewn amodau tywydd gwael a dylid hyn fod yn rhan o'r trefniadau wrth gefn.

Rhaid adnabod a rheoli peryglon amlwg, ar y safle ac mewn mannau cyfagos, megis cemegau neu beiriannau wedi eu storio, tyllau heb ffens o'u cwmpas, disgynfeydd serth rhwng lefelau tir gwahanol, pyllau/dŵr ac adeiladau peryglus neu rai eraill y dylid cadw'r cyhoedd oddi wrthynt gada rhwystr/ffens. Gallai llinellau pŵer uwchben fod yn berygl, yn enwedig yn ystod y gwaith adeiladu. Dylid adnabod cyfyngiadau uchder a'u nodi wrth fynedfa'r safle. Pan fo ceblau uwchben yn broblem dylech gysylltu â'r cwmni dosbarthu pŵer lleol.

Hefyd bydd rhaid ystyried unrhyw bibellau gwasanaeth sydd dan ddaear.

Dylid rhoi sylw i beryglon llithro, baglu, cwympo neu debyg a'u hystyried fel rhan o'r asesiad risg, a hefyd pa mor addas yw'r tir ar gyfer llwyfannau, offer trwm ac adeileddau sydd wedi eu



## 5. RHAGOR O WYBODAETH A CHYFARWYDDYD

Nid yw'r canllaw hwn yn cynnwys popeth ac nid yw'n gallu rhoi sylw i bob amgylchiad. Os bydd angen rhagor o gyngor arnoch chi ynglŷn â'r canllaw hwn neu ar unrhyw fater arall cysylltiedig, cysylltwch â:

**Iechyd a Diogelwch/Diogelwch Bwyd/Trwyddedu/Rheoli Llygredd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd, Stryd Fawr, Rhiwabon, Wrecsam, LL14 6NH, Teleffon 01978 292040**
www.wrecsam.gov.uk

**Pencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, Ffordd Salesbury, Parc Busnes Llanelwy, Llanelwy, Sir Ddinbych, Ll17 0JJ, Teleffon 01745 535 250**
www.gwastan-gogcymru.org.uk

**Gwasanaeth Ambiwlans Cymru - Ymddiriedolaeth GIG**
Ysbyty H.M.Stanley
Llanelwy
Sir Ddinbych
LL17 0RS
Teleffon 01745 532900
www.welshambulance.info

**Llinell Wybodaeth HSE**
Llinell Wybodaeth yw'r ganolfan gyswllt ar gyfer ymholiadau gan y cyhoedd i HSE. Mae'r Llinell Wybodaeth yn rhoi mynediad at wybodaeth iechyd a diogelwch yn y gweithle, canllawiau a chyngor arbenigol.
Teleffon 0845 345 0055

**Y Gyfarwyddiaeth Iechyd a Diogelwch (HSE), Adeiladau'r Llywodraeth, Tŷ Glas, Llanisien, Caerdydd, CF14 5SH**
Teleffon 029 2026 3000
e-bost: hseinformationservices@natbrit.com

**Llyfrau HSE Books, PO Box 1999, SUDBURY, Suffolk, CO10 6FS.**
Teleffon 01787 881165
www.hsebooks.co.uk

**RoSPA, Edgbaston Park, 353 Bristol Road, Edgbaston, BIRMINGHAM, B5 7ST.**
Teleffon 0121 2482000
e-bost: help@rospa.co.uk

**National Inspection Council for Electrical Installation Contracting (NICEIC)**
**Vintage House, 37 Albert Embankment, London, SE1 7UJ.**
Teleffon 020 7564 2323
e-bost: enquiries@niceic.org.uk

**Cymdeithas y Contractwyr Trydanol (ECA) 8 Earlswood Road, Parc Busnes Caerdydd, Llanisien, Caerdydd, CF14 5GH**
Teleffon 029 2074 7103
www.eca.co.uk

4.6 Cyhoeddiad Sefydliad y Peirianwyr Strwythurol - *Temporary Demountable Structures - Guidance on procurement, design and use*. (Trydydd argraffiad) (2007)).

47. MUTA- *Marq Accreditations Scheme and Best Practice Guide 2008*: http:// www.mutamarq.org.uk.

48. Sefydliad Safonau Prydeinig (BSI). BS EN 13782:2005 *Temporary Structures - tents- safety.*

49. Sefydliad Safonau Prydeinig (BSI). (2004). *Guide to industry best practice for organizing outdoor events.* PAS 51:2004. ISBN: 0580433196.

50. Sefydliad Safonau Prydeinig (BSI). (2003). *Event stewarding and crowd safety services. Code of practice* BS 8406:2003. ISBN: 0580427633.



clymu i lawr.

Hefyd dylid ystyried peryglon cerbydau gwaith / materion sy'n ymwneud â diogelwch cerbydau.

Sicrhewch fod goleuadau addas ym mhob rhan o'r safle/lleoliad, yn cynnwys goleuadau brys dros dro (os yw'r digwyddiad i barhau wedi iddi nosi).

Wrth ddewis y safle/lleoliad, dylid ystyried y gymuned leol o ran niwsans sŵn (gweler adran 3).

Sicrhewch fod gennych drefniadau addas i alluogi pobl o wahanol alluoedd i ddod i/cael mynediad i'r digwyddiad a defnyddio'r cyfleusterau a ddarperir.

***Materion i drefnwyr eu hystyried:***

- Paratoi cynllun bras o'r safle, (i raddfa os yn bosib) gan ddangos lleoliad yr holl weithgareddau/atyniadau, ffyrdd o gwmpas ac allanfeydd.
- Ceisio cymeradwyaeth fuan gan yr awdurdod y priffyrdd lleol os bydd angen cau ffyrdd neu sicrhau trefniadau arbennig i reoli traffig ar y briffordd.
- Bod â digon o allanfeydd i sicrhau bod modd hel pawb yn drefnus oddi ar y safle, a chytuno gyda'r gwasanaethau brys ar nifer fwyaf y bobl sydd i fod yno.
- Sicrhau mynedfeydd ac allanfeydd wedi eu nodi ar gyfer cerbydau'r gwasanaethau brys. Dylid cytuno'r gyda'r gwasanaethau brys. Dylai llwybrau ac allanfeydd brys fod yn rhydd o unrhyw rwystr ar bob achlysur a dylid eu nodi'n glir gydag arwyddion addas, sydd wedi eu goleuo os oes angen.
- Sicrhau bod gwaith adeiladu a symudiadau cerbydau a allai ddigwydd yn ystod cyfnod paratoi'r safle wedi eu goruchwylio a/neu eu diogelu gyda rhwystrau addas.
- Trefnu mynedfeydd/allanfeydd ar wahân ar gyfer cerbydau a cherddwyr a threfnu nad yw rhesi o bobl yn aros i fynd i mewn yn rhwystro mynediad cerbydau neu gyffyrdd cyfagos.
- Lleoli unrhyw feysydd parcio yn ddigon pell oddi wrth y rhannau o'r safle lle mae pobl yn cerdded. Rhoi arwyddion clir i'r maes parcio a pheidio â chaniatáu parcio ceir mewn unrhyw le arall.
- Cynllunio a stiwardio meysydd parcio er mwyn rheoli'r risg o berygl i gerddwyr, er enghraifft cerbydau'n bacio. Dylai trefnwyr hefyd feddwl am dopograffeg y mannau parcio. Trefnwch geir fel eu bod yn wynebu i lawr neu ar draws llethr am y gall hi fod yn anodd gyrru i fynnu llethr os yw'r tir yn feddal neu os digwydd iddi fwrw yn ystod y digwyddiad a bod llawer o geir yn ceisio gadael y maes parcio i'r un cyfeiriad.
- Ystyried gwahardd symudiadau cerbydau mewn ardaloedd cyhoeddus o'r safle yn ystod y digwyddiad, heblaw bod hynny i ddibenion brys.
- Sicrhau bod y mynediad wedi ei stiwardio'n dda (yn enwedig pan fod cyfyngiad ar niferoedd) a bod system gyfri gywir ar waith i atal gorlenwi ar y safle ac yn yr allanfeydd.

2.4 **Proffil y Dorf**

Gall y risg sy'n gysylltiedig â rhai peryglon gynyddu neu leihau yn ôl proffiliau torf gwahanol. (Gweler Rheoli Torfeydd yn Ddiogel HSG 154).

***Materion i drefnwyr eu hystyried:***

- Sicrhau bod asesiadau risg yn ystyried anghenion penodol plant ifanc, glaslanciau, yr anabl a'r henoed.

- Gwneud "addasiadau rhesymol" ar gyfer pobl anabl, megis darparu cymorth ychwanegol mewn digwyddiad a/neu wneud addasiadau rhesymol i nodweddion ffisegol unrhyw adeilad sydd i'w ddefnyddio ar gyfer digwyddiadau er mwyn goresgyn rhwystrau ffisegol i fynediad.

- Ystyried a yw eich polisi digwyddiad a'r deunydd hyrwyddo yn adlewyrchu ymagwedd gynhwysol (e.e. a fyddai modd darparu deunydd mewn print bras/ieithoedd gwahanol ac ati).

2.5 **Rhwystrau diogelwch**

Mae nifer o wahanol ddibenion i rwystrau. Maent yn gallu cynnig diogelwch corfforol neu maent yn gallu rhwystro'r gynulleidfa rhag mynd at offer, arddangosfeydd, peiriannau sy'n symud ac ati. Gallent hefyd fod yn fodd i liniaru a chadw pwysau'r gynulleidfa rhag cynyddu ,e.e. rhwystr wedi ei adeiladu'n iawn o flaen y llwyfan.

Mae rhwystrau yn gallu bod dan bwysau unrhyw amser a dylent fod wedi eu cynllunio i wrthsefyll pwysau ongl sgwâr a chyfochrog, yn unol â'r pwysau tebygol. Dylai person cymwys wirio i sicrhau bod y rhwystr, wedi ei godi, yn cwrdd â'r meini prawf cynllunio.

(Am ragor o wybodaeth benodol ar rwystrau gweler y Canllaw Diogelwch Digwyddiad (HSG 195) a chyhoeddiad Sefydliad y Peirianwyr Adeileddol *Temporary Demountable Structures - Guidance on procurement, design and use*. (Trydydd Argraffiad) (2007))

2.6 **Hysbysiadau gwybodaeth ac arwyddion**

Mae arwyddion diogelwch (sy'n cydymffurfio â Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Arwyddion a Signalau Diogelwch) 1996 a hysbysiadau gwybodaeth yn bwysig o ran cyfathrebu llwyddiannus mewn digwyddiad. (Gweler Darllen Cymeradwy). Mae logos a gydnabyddir yn rhyngwladol yn ddefnyddiol i unigolion sydd ddim yn siarad/darllen Saesneg neu Gymraeg.

(Noder: Os yw'r arwyddion ar y briffordd rhaid iddynt gydymffurfio â'r Rheoliadau a Chyfarwyddiadau Cyffredinol Arwyddion Traffig 2002).

***Materion i drefnwyr eu hystyried:***

- Ystyried cael arwyddion/hysbysiadau amlieithog.

- Darparu arwyddion/hysbysiadau digonol o faint addas o amgylch y lleoliad, er enghraifft eiddo coll, plant sydd ar goll, arwyddion diogelwch (fel sy'n briodol).



Canllawiau Asesiad Risg Diogelwch Tân - e.e. mannau ymgynnull bach i ganolig ACLIL - Canllaw 6, a Digwyddiadau Awyr Agored - Canllaw 9.

32. Brigâd Dân Canolbarth a Gorllewin Cymru – Taflen Wybodaeth Diogelwch Tân: FSIS/12. Rhagofalon Tân ar gyfer Pebyll Bach a Mawr. **Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru, Adran Diogelwch Tân,** Pencadlys Rheoli Ardal y Gorllewin, Rhiw Myrddin, HWLFFORDD, SA61 1PG. Ffôn: 08706 060699.

33. Rheoli Digwyddiadau Mawr (Deddf Trwyddedu 2003) – Arweiniad LACORS, LACORS**,** Tŷ Llywodraeth Leol, Smith Square, Llundain SW1P 3HZ. Ffôn: 020 7665 3888.

34. Iechyd a diogelwch mewn digwyddiadau cymunedol awyr agored, Voluntary Arts, e-bost: info@voluntaryarts.org.

35. *Guide to Managing Health & Safety at Exhibitions & Events. The Red Book Guide to new folk promoters. A jazz services publication*.

36. *The Good Practice Safety Guide for Small and Sporting Events taking place on the high way, roads and public places.* Swyddfa Gartref.

37. *The Institute of Leisure and Amenity Management* (ILAM) - *Events from start to finish,* ISBN 0954 2190 31.

38. *Organising Accessible Events*, Comisiwn Hawliau Anabledd.

39. *Guide to Safety at Sports Grounds* (y '*Green Guide*'), Awdurdod Trwyddedu Pêl-droed, 2008, ISBN 978-0-11-702074-0 www.culture.gov.uk/images/publications/GuidetoSafetyatSportsGrounds.pdf.

40. Diogelwch mewn digwyddiadau. Awdurdod y Diwydiant Diogelwch – *SIA Guidance on the Private Security Industry Act 2001*.

41. *Noise at Work in the Music and Entertainment Sectors* – Canllaw:
www.hse.gov.uk/noise/musicsound.htm
www.soundadvice.info
Taflen Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam – Rheoliadau Rheoli Sŵn yn y Gwaith 2005 – Canllaw i gyflogwyr mewn tafarndai a chlybiau.

42. Pecyn Trefnu Digwyddiadau a Gwyliau – Partneriaeth Twristiaeth Canolbarth Cymru www.tpmw.love-media.co.uk/files/99.pdf.

43. Tourism Network North East – *Festivals and Events Toolkit* www.tourismnortheast.co.uk/pages/information-sheets.

44. Pecyn Trefnu Gwyliau a Digwyddiadau Bwrdd Twristiaeth Cymru www.timelineforevents.co.uk/.

45. Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd (CIEH) - Chartered Institute of Environmental Health (CIEH) – *Draft National Guidance for Outdoor and Mobile Catering, Consultation Document*, Mawrth 2009.
www.cieh.org/policy/guidance_outdoor_mobile_catering.html?terms=outdoor+catering.

16. uklpg (Mai 2000). *The Use of LPG in Mobile Catering Vehicles and Similar Commercial Vehicles. Code of Practice 24 Part 3.* (Mae manylion cyswllt uklpg i'w cael yn adran Rhagor o Wybodaeth a Chyfarwyddyd).

17. uklpg (Mawrth 1999). The Use of LPG for Catering and Outdoor Functions. Code of Practice 24 Part 4.

18. *Gas safety in catering and hospitality. HSE Catering Information Sheet No 23* (adolygiad 1). Llyfrau HSE: http://www.hse.gov.uk/pubns/cais23.pdf.

19. The safe use and operation of play inflatable's including bouncy castles (nodyn canllaw HSE IT IS 7).

20. *Charity and voluntary workers. A guide to health and safety at work*, HSE ISBN 0717661857.

21. *Five Steps to Risk Assessment.* INDG 163, HSE, Llyfrau HSE: ISBN: 0 7176 6189 X. http://www.hse.gov.uk/pubns/indg163.pdf.

22. *A Guide to the Reporting of Injuries, Diseases and Dangerous Occurrences Regulations 1995* .HSE, L73 3ydd Argraffiad. ISBN: 9780717662906.

23. *The Work at Height Regulations 2005* (INDG 401(Adolygiad 1)) Llyfrau HSE. ISBN: 9780717662319. http://www.hse.gov.uk/pubns/indg401.pdf.

24. *COSHH: A brief guide to the regulations*. INDG 136, Llyfrau HSE. ISBN: 0717629821.

25. *An index of health and safety guidance in the catering industry. HSE Catering Information Sheet No 7* (adolygiad 1). Llyfrau HSE.

26. *The main health and safety law applicable to catering. HSE Catering Information Sheet No 11.* HSE http://www.hse.gov.uk/pubns/cais11.pdf.

27. *Avoiding ill health at open farms. HSE Agricultural Information Sheet 23* (adolygiad 1). Llyfrau HSE http://www.hse.gov.uk/pubns/ais23.pdf.

28. *Signpost to The Health and Safety (Safety Signs and Signals) Regulations 1996*, HSE http://www.hse.gov.uk/pubns/indg184.htm.

29. *Employers' Liability (Compulsory Insurance) Act 1969 A guide for employers,* HSE http://www.hse.gov.uk/pubns/hse40.pdf.

30. BS 6465 - 1:2006 - *Code of practice for the design of sanitary facilities and scales of provision of sanitary and associated appliances* ISBN 0 580 47917 X. Sefydliad Safonau Prydeinig (BSI), 389 Chiswick High Road, London, W4 4AL. Ffôn: 020 8996 7001.

31. Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol. (2007). *Fire Safety Risk Assessment - Open Air Events and Venues.* ISBN: 9781851128235: http://www.communities.gov.uk/documents/fire/pdf/158379



2.7 **Adeileddau Dros Dro**

Y Llwyfan/Tyrrau Goleuo

Os yw llwyfan, tyrrau goleuo/sain ac ati i'w codi mae'r rhaid i rywun cymwys wneud hyn. Dylid sicrhau cadarnhad ysgrifenedig ganddynt fod yr adeileddau yn ddiogel ym mhob amgylchiad y gellir ei ragweld.

Dylid lleoli pob llwyfan a/neu adeileddau fel nad ydynt yn rhwystro unrhyw fynediad neu ffordd allan o'r safle.

Fel arfer nid oes darpariaeth rhag cwympo oddi ar ymyl y llwyfan sy'n wynebu'r gynulleidfa ond dylid marcio'r ymyl yn glir. Dylid marcio gyda thâp gwyn neu oleuol pob rhwystr ffisegol arall, ymylon heb eu diogelu, ymylon ger bylchau ac ymylon blaen grisiau. (mae canllawiau yn awgrymu y dylai marciau o'r fath fod o leiaf 25mm o led er mwyn bod yn weladwy, ond byddai 50mm yn well).

Ni ddylai peryglon y gellid baglu drostynt a pheryglon corfforol eraill fod ar unrhyw lwyfan neu adeiledd (h.y. ymylon miniog/pwyntiau/darnau cynhalion yn ymwthio).

(Am ragor o wybodaeth gweler cyhoeddiad Sefydliad y Peirianwyr Adeileddol *Temporary Demountable Structures. Guidance on procurement, design and use*. (Trydydd argraffiad) (2007)).

Pebyll Mawrion/Pebyll

Os yw pebyll, bach a mawr, i'w codi yna dylid ceisio cyngor y Gwasanaeth Tân ar agweddau diogelwch gan gynnwys eu lleoli, gwneuthuriad, natur wrthdan a darparu allanfeydd, goleuadau argyfwng ac ati (gweler **Darllen Cymeradwy).**

Dylid gwneud trefniadau i atal personau diawdurdod rhag cael mynediad i, neu ymyrryd ag offer ac ati pan fo'r digwyddiad ar agor i'r cyhoedd.

Dylid cael y fanyleb pwysau gwynt ar gyfer pob pabell fawr i'w defnyddio wrth gynllunio ar gyfer unrhyw argyfwng a allai ddigwydd.

Dylai'ch asesiad risg adnabod y pellter diogel rhwng pebyll mawrion, carafannau, cerbydau ac adeileddau eraill.

Dylid cynnal llwybrau mynediad ar gyfer gwasanaethau brys y tu ôl i bebyll mawrion, pebyll ac adeileddau eraill.

(Am ragor o wybodaeth gweler cyhoeddiad y Performance Textiles Association - MUTAmarq "*Best Practice Guide for the Safe Use and Operation of Marquees and Temporary Structures"* yn *www.performancetextiles.org.uk/public/downloads/**mutamarq**.pdf ).*

(Hefyd The Work at Height Regulations 2005 ac adran Cwympiadau o Uchder ar wefan HSE, yn www.hse.gov.uk/falls/regulations.htm)

2.8 **Diogelwch tân**

Newidiodd y ddeddf diogelwch tân yn Hydref 2006 gyda chyflwyno'r Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005.

Datblygwyd cyfres o ganllawiau diogelwch tân i helpu i egluro'r hyn sydd rhaid ei wneud i gydymffurfio â deddf diogelwch tân, eich helpu i gynnal asesiad o berygl tân ac adnabod rhagofalon tân cyffredinol sy'n angenrheidiol. Bydd y canllaw/canllawiau sydd fwyaf defnyddiol yn ddibynnol ar faint a natur eich lleoliad. Ewch i'r wefan ar www.communities.gov.uk/fire/firesafety/firesafetylaw/aboutguides

Am gymorth pellach gweler **Darllen Cymeradwy.**

***Materion i drefnwyr eu hystyried:***

- **Gwnewch Asesiad Risgiau Tân fel sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith.**
- Cysylltwch â'ch Swyddog Atal Tân lleol am gyngor. (Ceir manylion cyswllt Gwasanaeth Tân Gogledd Cymru yn adran **'Rhagor o Wybodaeth a Chyfarwyddyd'**).
- Cytunwch ar ffordd o seinio'r larwm neu gyfathrebu'r rhybudd os digwydd tân a gwirio bod hyn yn gweithio'n effeithiol.
- Darparwch offer diffodd tân addas o amgylch y safle/lleoliad (e.e. diffoddwyr tân, blancedi tân).
- Sicrhewch fod stiwardiaid yn gwybod ble mae'r offer a sut i'w defnyddio. Dylech ddweud wrthynt na ddylent roi cynnig ar ymladd tannau mawr.
- Dylid galw'r Frigâd Dân ar unwaith i unrhyw dân, os ydych yn amau bod tân neu fod yna un go iawn.
- Darparu pellter gwahaniad priodol rhwng pebyll mawrion/pebyll/stondinau unigol i atal tân rhag lledaenu.
- Ystyried defnyddio generaduron disel yn hytrach na phetrol am fod disel yn llai fflamadwy.
- Gweler Paragraff 6 (uchod) ar gynllun y mynedfeydd ac allanfeydd i'r safle/lleoliad.

2.9 **Gosodiadau a golau trydan**

Gall trydan beri marwolaeth neu niwed difrifol i berfformwyr, gweithwyr neu aelodau o'r cyhoedd. Gall nam, niwed, camddefnyddio neu gynnal a chadw gwael olygu bod teclyn neu ran o fewnosodiad yn anniogel, gan beri risg o sioc drydanol neu dân. Mewn nifer o amgylchiadau gall y cyflenwad trydan fod yn gyflenwad dros dro, ond nid yw hyn yn golygu ei bod yn iawn iddo fod yn is-safonol neu o ansawdd israddol i fewnosodiad parhaol.

- Dylai'r holl fewnosodiad, gan gynnwys y gwifro, yr offer switsio ac unrhyw eneradur fod wedi ei osod yn ddiogel gan berson cymwys (h.y. trydanwr cymwys sydd wedi ei hyfforddi).

- Rhaid i bob mewnosodiad ac offer trydanol gydymffurfio â gofynion cyffredinol Rheoliadau Trydan yn y Gwaith 1989.

- Dylai'r mewnosodiad trydanol (boed hynny'n barhaol neu dros dro) gael ei archwilio/brofi gan berson cymwys yn ôl y gweithdrefnau a osodir yn y Safonau Prydeinig perthnasol.



## 4. DARLLEN CYMERADWY

**Mae holl gyhoeddiadau HSE ar gael drwy Lyfrau HSE, PO Box 1999, Sudbury, Suffolk, CO10 2WA, Ffôn: 01787 881165**


1. Arweiniad i ddiogelwch mewn digwyddiadau - *The Event Safety Guide: A guide to health, safety and welfare at music and similar events* HSG195 (1999) Llyfrau HSE ISBN 7176 2453 6.

2. *Fairgrounds and amusement parks: guidance on safe practice. Practical guidance on the management of health and safety for those involved in the fairgrounds industry* HSG 175 Llyfrau HSE ISBN 0 7176 1174 4.

3. Rheoli tyrfaoedd - *Managing Crowds Safely* HSG 154 Llyfrau HSE ISBN 0 7176 1180 9.

4. Ymbelydredd laserau - *Radiation Safety of lasers used in display purposes* HSG 95 Llyfrau HSE ISBN 0 7176 0691 0.

5. Sioeau tân gwyllt - *Working together on firework displays A guide to safety for display organisers and operators* HSG 123 Llyfrau HSE ISBN 0 7176 0835 2.

6. Mwg a tharth - *Smoke and vapour effects used in entertainment* ETIS 3 Llyfrau HSE.

7. Diogelwch trydanol mewn lleoliadau adloniant – ar gyfer lleoliadau llai, nodyn canllaw HSE GS50

8. Diogelwch trydanol - *Electrical safety and you*. INDG 231. HSE, Llyfrau HSE. ISBN: 0 7176 1207 4. http://www.hse.gov.uk/pubns/indg231.pdf.

9. Canllaw ar Reoliadau Trydan yn y Gwaith 1989, llyfryn HSE HSR25

10. Diogelwch trydanol ar gyfer diddanwyr - *Electrical safety for entertainers* llyfryn HSE INDG247.

11. BS 7671: 2008 *Requirements for electrical installations* (fe'i gelwir hefyd yn *IEE Wiring Regulations*, 17eg Argraffiad). Dyma'r safon a ddefnyddir amlaf yn y DU ar gyfer gosodiadau trydanol sefydlog.

12. BS 7909: 1998 *Code of Practice for temporary distribution systems for ac electrical supplies for entertainment lighting, technical services, and related purposes*.

13. BS 7430: 1991 *Code of Practice for earthing.*

14. Cyfarwyddiaeth Iechyd a Diogelwch - *Health and Safety Executive. (2004). Maintaining portable and transportable electrical equipment.* HSG 107. Llyfrau HSE. ISBN: 0717628051.

15. *The safe use of gas cylinders (INDG 308) and small scale use of LPG cylinders* (nodiadau canllaw HSE - CHIS 5).

## 3. RHEOLI SŴN

Daw gofynion iechyd a diogelwch i rym mewn perthynas ag amddiffyn gweithwyr rhag effeithiau sŵn uchel a allai fod yn niweidiol. Gweler y ganllaw ar gyfer y Diwydiant Adloniant ar Reoliadau Sŵn yn y Gwaith dan 'Darllen Cymeradwy'.

Hefyd mae ystod eang o ddeddfwriaeth ar gael i helpu pobl a effeithir gan sŵn digroeso. Y peth olaf fyddwch ei angen yw i'ch digwyddiad gael ei stopio neu ei atal rhag digwydd eto am ei fod y rhy swnllyd!

***Materion i drefnwyr eu hystyried:***

- Gwnewch un person yn gyfrifol am gydymffurfiad sŵn eich digwyddiad, a sefydlu cysylltiadau gydag Adran Iechyd yr Amgylchedd y Cyngor cyn gynted ag sydd bosib cyn y digwyddiad am gyngor a chytundeb ar unrhyw fonitro angenrheidiol.
- Parchwch eiddo yn yr ardal gyfagos sy'n sensitif i sŵn ac effaith bosib y math o ddigwyddiad a'i barhad.
- Yn aml iawn mae pobl yn fwy parod i ddioddef sŵn o ddigwyddiad os ydynt yn gwybod beth sy'n digwydd, am faint bydd y digwyddiad yn para ac ati. Meddyliwch am gysylltu gyda'r cymdogion cyn y digwyddiad, gan eu hysbysu o'ch cynlluniau a rhoi rhif cyswllt iddynt os digwydd unrhyw broblem. Ond byddwch yn barod i weithredu'n gyfrifol o dderbyn unrhyw gwynion!
- Sicrhau bod rheolaeth ddigonol ar lefelau sain cerddoriaeth er mwyn atal niwsans, yn enwedig cydran fas a systemau cyhoeddi.
- Gosodwch lwyfannau yn wynebu oddi wrth eiddo preswyl cymaint ag sy'n bosibl a defnyddiwch nifer o seinyddion llai pwerus, wedi eu gwasgaru o amgylch y gynulleidfa, yn lle seinyddion mewn pentwr.
- Rheolwch a rhowch ystyriaeth drylwyr i'r modd y gellid delio gyda systemau sain diawdurdod ar y safle, yn cynnwys cyngor ar y tocynnau, archwilio wrth ddod i mewn a chyngor i'r stiwardiaid. Mae hyn yn arbennig o bwysig lle bydd gwersylla dros nos.
- Os oes modd, cymerwch gyngor gan Beirianwyr Acwstig cymwys ar leihau unrhyw niwsans sŵn potensial.

**Trwydded PRS**

Mudiad aelodaeth dielw o gyfansoddwyr, ysgrifenwyr caneuon, awduron a chyhoeddwyr cerddoriaeth yw'r Performing Rights Society (PRS).

Gwaith y PRS yw casglu breindaliadau ar ran ei aelodau, gan ddefnyddwyr cerddoriaeth yn y DU. Rhaid i unrhyw un sy'n bwriadu perfformio neu ddefnyddio cerddoriaeth (byw, DJ, teledu, radio ac ati) yn gyhoeddus ac mewn lleoliadau gael trwydded cerddoriaeth PRS.

Cyfrifoldeb y trefnydd yw sicrhau trwydded PRS. Mae bod â thrwydded PRS yn rhoi hawl cyfredinol fel nad oes raid i ddeiliad y drwydded ofyn am hawl unigol ar gyfer pob darn o gerddoriaeth a ddefnyddir. Am wybodaeth bellach a ffurflen gais ewch i www.prs.co.uk/musiclicence neu ffoniwch 0800 068 4828.



***Materion i drefnwyr eu hystyried:***

- Gwarchod y cyflenwad gyda dyfais gollyngiad daearu neu Ddyfais Cerrynt Gweddillol, gyda graddfa tripio cerrynt uchaf o 30mA ac amddiffyniad addas rhag gorlwytho.

- Lle bynnag y mae'n bosib, lleoli'r brif dderbynfa drydan a/neu'r clos o amgylch y generadur, mewn man sy'n hygyrch ar gyfer gwaith arferol neu argyfwng, ond oddi wrth ardaloedd cyhoeddus y lleoliad. Gosod arwyddion rybuddio o amgylch y dderbynfa neu'r clos. Dylai unrhyw eneradur a/neu offer trydanol, gan gynnwys offer switsio, fod â rhwystrau boddhaol o'u hamgylch i atal unrhyw un rhag cael mynediad diawdurdod a/neu ymyrryd â hwy.

- Meddwl am leoliad y generaduron ac a oes modd mynd atynt yn rhwydd i ddibenion ail-lenwi â thanwydd. Ystyried hefyd cael rheol safle sy'n dweud mai dim ond un cynhwysydd llawn tanwydd sydd i'w storio ger y generadur ac y dylai'r gweddill fod mewn man storio diogel, mewn ardal addas sydd ag arwyddion ac wedi ei ffensio'n briodol. Dylid storio tanwydd mewn modd diogel ac mewn cynhwysyddion addas. Os yw'r lleoliad yn agos at ardal breswyl dylid meddwl am y ffactor niwsans sŵn. Os yw'n ormodol, gall generaduron wedi eu tawelu fod yn ddull addas i leihau'r sŵn.

- Amddiffyn yr holl offer trydanol, a allai fod yn agored i'r tywydd, drwy ddefnyddio gorchuddion addas a digonol, amgaeadau neu lochesau.

- Sicrhau bod ceblau a ddefnyddir yn addas ar gyfer y llwyth. Ni ddylai fod unrhyw ddifrod i'r gwifrau a dylid sicrhau bod y cysylltwyr cywir yn cael eu defnyddio sy'n addas ar gyfer eu defnyddio tu allan (pan fo hynny'n angenrheidiol).

- Sefydlogwch geblau neu defnyddiwch gynhaliaeth gwifren gatena uwchben, neu claddwch nhw dan ddaear. Dylai ceblau sy'n rhedeg ar y wyneb/llawr gael eu hamddiffyn rhag ymylon miniog neu rag cael eu gwasgu gan lwyth trwm a dylid eu gosod fel nad oes perygl o faglu drostynt neu ryw berygl arall (e.e. drwy eu gorchuddio â rampiau neu fatiau rwber).

- Lle bynnag y mae'n bosib, darparu digon o socedi sefydlog, i osgoi gorfod defnyddio lidiau estyniad hyblyg ac allfeydd aml-soced. Gall allfeydd soced sefydlog fod un ai'n barhaol neu ar fyrddau dosbarthu dros dro sydd wedi eu mowntio'n iawn. Yn ddelfrydol, dylai offer gael eu lleoli o fewn 2m i soced sefydlog, fel nad oes angen gwifrau hir hir yn ymlusgo.

- Sicrhau bod unrhyw berson sy'n dod ag offer trydanol symudol i'r safle yn gallu dangos bod yr offer trydanol wedi ei gynnal a'i gadw'n gywir a bod profion/archwiliadau arferol wedi eu gwneud ar yr offer gan berson cymwys (fel sy'n briodol).

- Dylid ceisio cyngor arbenigol gan HSE mewn perthynas â chanllawiau ar ddiogelwch trydanol offer ffair.

- Darparu lefelau addas o olau artiffisial i bob rhan o safle awyr agored, pan nad oes digon o olau dydd. Rhaid ystyried y goleuadau ar gyfer y safle cymorth cyntaf, yr ardal wybodaeth/pebyll, mynediad i gerddwyr i'r meysydd parcio, y meysydd marcio, y toiledau a'r ffyrdd at y priffyrdd cyhoeddus.

- Darparu goleuadau argyfwng yn unol â'r asesiad risg a'r asesiad risgiau tân.

2.10 **Diogelwch Nwy**

Mae gwefan Diogelwch Nwy HSE: www.hse.gov.uk/gas/index.htm yn egluro'r gofynion cyfreithiol mewn perthynas â diogelwch nwy.

Ymysg y taflenni sydd gan HSE ar eu gwefan sy'n cynnig gwybodaeth ddefnyddiol mae:

- INDG238(rev3) '*Gas appliances – Get them checked, keep them safe'*
- *Gas Safety in Catering and Hospitality – HSE Catering Information Sheet No. 23*.

Mae Cofrestriad CORGI ar gyfer peirianwyr/gosodwyr nwy bellach wedi ei ddisodli gan y Gofrestr Diogelwch Nwy newydd (gweler www.gassaferegister.co.uk <http://www.gassaferegister.co.uk/> am fanylion).

Defnyddio Nwy Petroliwm Hylifol (tanwydd propan neu fwtan) - LPG

Mae taflen wybodaeth (CHIS 5) yn cynnwys gwybodaeth am ddefnyddio LPG, sydd ar gael am ddim ar wefan HSE (gweler Darllen Cymeradwy a chanllaw UKLPG).

***Materion i drefnwyr eu hystyried:***

- Defnyddio'r weithdrefn asesiad risg i ystyried y risgiau tân, ffrwydrad a charbon monocsid sy'n gysylltiedig â nwy (prif gyflenwad neu LPG). Er enghraifft - o ran LPG, asesu'r risg sydd i offer coginio neu gynhesu sy'n defnyddio propan neu fwtan, pibwaith, pibellau a silindrau (yn enwedig os ydynt y tu fewn i bebyll neu adeileddau tebyg).
- Ystyried cysylltu â'r Gwasanaeth Tân am gyngor sy'n ymwneud ag atal tân.
- Sicrhau bod arlwywyr allanol neu fasnachwyr/gyflenwyr/arddangoswyr eraill fydd yn mynychu'r digwyddiad yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau i gydymffurfio â'r gyfraith o ran diogelwch nwy a'u bod yn ymwybodol o'r ganllaw uchod ac unrhyw reolau diogelwch y safle/ lleoliad.
- Gofyn am brawf bod peirianwyr nwy a ddefnyddir mewn cysylltiad â'ch digwyddiad ar y Gofrestr Diogelwch Nwy. Mae peirianwyr nwy sydd wedi eu cofrestru'n iawn yn cario cardiau adnabod, felly mae'n bwysig gwirio cefn y cerdyn adnabod i wneud yn siŵr bod y peiriannydd yn gymwys i wneud y math o waith y gofynnir iddynt ei wneud.

2.11 **Rheoli Cymorth Cyntaf**

Mae'r gofynion cymorth cyntaf ar gyfer pobl sydd 'yn y gwaith' yn cael eu nodi yn Rheoliadau Cymorth Cyntaf yn y Gwaith 1981. Y tu hwnt i hyn, rhaid i lefel y ddarpariaeth cymorth cyntaf mewn unrhyw ddigwyddiad penodol fod yn addas ar gyfer nifer y bobl a ddisgwylir ac ar gyfer y math o ddigwyddiad/adloniant a ddarperir a dylid pennu hyn drwy asesiad risg. Mae cyngor manylach i'w gael yn "*"The event safety guide: A guide to Health, Safety and Welfare at Music and Similar Events" HSG195 (gweler* ***Darllen Cymeradwy)****.* Dylech gysylltu gyda'ch Ymddiriedolaeth Ambiwlans lleol i gael cyngor a darpariaeth gwasanaeth posib ganddynt.

***Materion i drefnwyr eu hystyried:***

- Sicrhau bod y gwasanaethau cymorth cyntaf sylfaenol ar gael bob amser. Mewn digwyddiadau llai, dylai person cymwys cymorth cyntaf fod yn bresennol mewn ardal sy'n addas ar gyfer triniaethau cymorth cyntaf (dylai cyflenwad dŵr fod ar gael). Ni ddylai llai na 2 berson cymorth cyntaf fod mewn unrhyw ddigwyddiad (o ddilyn canllaw HSG195).



- Darparu nifer addas o fannau tan: dylai'r rhain gynnwys, o leiaf, dull o seinio rhybudd, fel gong neu driongl a chyflenwadau o ddŵr a bwcedi.
- Darparu nifer briodol o gyfleusterau glanweithdra a basnau golchi dwylo.
- Darparu dŵr yfed.
- Darparu biniau sbwriel mewn mannau strategol.
- Darparu digon o oleuadau i weld y ffordd o gwmpas yn ystod y nos, gyda rhagor o oleuadau yn y mannau lle mae'r toiledau a'r mannau tân ac ati.
- Darparu llwybrau ar gyfer cerbydau a cherddwyr i leoedd gwersylla a thrwyddynt er mwyn sicrhau y gall cerbydau'r gwasanaethau brys fynd i mewn ac allan yn hwylus a hefyd er mwyn bod llwybrau diogel ar gyfer cerddwyr heb beryglon baglu fel rhaffau pebyll ac ati.
- Yn naturiol bydd safleoedd y mae anifeiliaid yn arfer pori arnynt wedi eu heintio gyda baw anifeiliaid a gallai gwersyllwyr fod yn agored i beryglon i'r iechyd fel haint E.Coli 0157. Cadwch anifeiliaid oddi ar bob man heblaw'r meysydd parcio cyhyd ag sy'n bosib cyn i'r cyhoedd ddod yno (o leiaf 3 wythnos). (Gweler www.hse.gov.uk/press/2004/e04046.htm)
- Cynlluniwch ar gyfer atal neu leihau effaith sŵn o feysydd gwersylla ar dai preswyl cyfagos.

2.15 **Arlwyo, marchnata, atyniadau, ac effeithiau arbennig fel tân gwyllt**

***Materion i drefnwyr eu hystyried:***

- Holi'r gweithredwr cyn y digwyddiad am y peryglon arbennig sy'n gysylltiedig â'r gweithgaredd/ effaith arbennig a gofyn iddynt am gopïau o'u hasesiad risg a'u gwybodaeth diogelwch eu hunain. Cysylltwch gyda'r person uchod ar faterion iechyd a diogelwch a threfnu bod cyfathrebu a chydweithrediad effeithiol yn digwydd gyda'r nod o sicrhau bod y digwyddiad yn mynd rhagddo yn ddiogel. (Gellir galw ar lawer o'r egwyddorion a ddefnyddir i ddethol, archwilio a rheoli contractwyr sy'n gyfrifol, dibynadwy ac ufudd).Corfforwch yr wybodaeth a gewch i mewn i'ch asesiad risg cyffredinol ar gyfer y digwyddiad. Os nad oes modd darparu'r wybodaeth hon, ystyriwch beidio â llogi eu gwasanaeth.
- Gwirio unrhyw dystysgrifau atebolrwydd cyhoeddus a chynnyrch ac adroddiadau diogelwch ar gyfer offer. Dylai bod adroddiadau archwilio perthnasol i gyd-fynd ag unrhyw offer nwy, trydanol neu offer codi a ddaw i'r safle a bod y profion/archwiliadau perthnasol wedi eu cynnal. Os nad oes modd darparu'r wybodaeth hon ystyriwch beidio â llogi eu gwasanaeth (neu eu hatal rhag defnyddio unrhyw offer perthnasol nad oes modd dangos adroddiad diogelwch ar eu cyfer).
- Briffio'r holl weithredwyr ynglŷn â materion diogelwch ar y safle.
- Lleoli stondinau a difyrrwch ac ati oddi wrth lwybrau mynediad ac mewn ardaloedd llai prysur o'r safle. Bydd gan rai unedau gynnyrch hynod fflamadwy megis LPG a bydd rhaid eu lleoli gyda gofal.
- Ystyried faint o le sydd yna i bobl gerdded o gwmpas a'r trefniadau ciwio posibl, na ddylai rwystro llwybrau.
- Ystyried y cyflenwadau pŵer, os bydd eu hangen, fel rhan o'r cyflenwad trydan cyffredinol ar gyfer y digwyddiad (gweler Adran 12 uchod ar fewnosodiadau trydanol a goleuadau).
- Codi unrhyw stondinau neu standiau ac ati yn gywir gan sicrhau eu bod yn boddhau unrhyw ofynion o ran cywirdeb strwythurol (gweler Adran 10 uchod ar adeileddau).
- Ystyried y canllaw penodol a gyhoeddwyd gan yr HSE mewn perthynas ag atyniadau, reidiau ffair, dyfeisiadau difyrrwch ac ar laserau, tân gwyllt ac ati (gweler **Darllen Cymeradwy**).
- Ystyried y nodiadau cyfarwyddyd a'r cyngor ar bob agwedd o hylendid bwyd y digwyddiad sydd i'w cael gan Adran Diogelwch Bwyd, Iechyd yr Amgylchedd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. (Manylion cyswllt yn adran '**Rhagor o Wybodaeth a Chyfarwyddyd'**).
- Bod yn ymwybodol y gall Swyddogion y Cyngor ofyn am gael archwilio gweithgareddau ategol a ddarperir yn y digwyddiad ac y gallent ofyn ichi gyflwyno rhestr yn y cyfnod cynllunio o'r arlwywyr/gweithredwyr fydd yn y digwyddiad.

2.16 **Gwersylla**

Dylai unrhyw le gwersylla fod wedi ei ddarparu ar safle ddiffiniedig y digwyddiad a'i gynnwys wrth gynllunio'r digwyddiad.

***Materion i drefnwyr eu hystyried:***

- Bydd angen i'r lle gwersylla fod wedi ei ddraenio'n ddigon da a'r glaswellt wedi ei dorri'n fyr fel bod llai o berygl i dân ymledu.
- Darparu digon o bellter rhwng pebyll unigol er mwyn eu gwahanu i ddiogelu'r safle rhag peryglon tan a baglu.
- Gwahanu lleoedd gwersylla yn gorfforol oddi wrth feysydd parcio.
- Darparu gwybodaeth ynglŷn â diogelwch y safle i wersyllwyr, h.y. dim tannau agored, dim barbiciws, lleoliad pwyntiau tan, toiledau ac ati, mewn lleoliadau strategol.



- Gellir gofyn i gymdeithas wirfoddol cymorth cyntaf ddarparu Safle Cymorth Cyntaf gyda swyddogion cymorth cyntaf cymwys ynddo.
- Dylid arwyddo unrhyw safle cymorth cyntaf yn glir a sicrhau bod mynediad rhwydd ar gyfer y gynulleidfa. Os bydd angen ambiwlans, dylid darparu ardal barcio yn agos at y safle cymorth cyntaf gyda ffordd glir allan o'r lleoliad.
- Sicrhau bod pawb sy'n cynorthwyo yn y digwyddiad yn gwybod lle mae'r safle cymorth cyntaf, a phan fo hynny'n briodol, pwy yw'r swyddog cymorth cyntaf.
- Darparu mynediad i deliffon neu ddarparu ffonau symudol.
- Rhaid cadw cofnod p bawb sy'n dod am driniaeth. Mae'n bosib y bydd angen y cofnodion i helpu gyda dyletswydd statudol y trefnwyr i adrodd am ddamweiniau neu anafiadau i weithwyr ac aelodau o'r gynulleidfa yn unol â Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau a Digwyddiadau Peryglus 1995 (RIDDOR).
- Mean's bosib y bydd darpariaeth cymorth cyntaf yn cael ei nodi fel amod trwydded yn y Drwydded Safle os yw'ch digwyddiad wedi derbyn trwydded.

2.12 **Stiwardiaid**

Rhaid darparu nifer briodol o stiwardiaid a goruchwylwyr ar gyfer diogelwch a rheolaeth y safle a'r cyhoedd sy'n bresennol. Ar gyfer digwyddiadau trwyddedig dylid cytuno'r niferoedd a lefel yr hyfforddiant gyda'r Awdurdod Trwyddedu/Heddlu.

***Materion i drefnwyr eu hystyried:***

- Sicrhau bod nifer y stiwardiaid fydd eu hangen yn cael ei gyfrifo drwy ystyried pob un o'r tasgau unigol sydd i'w gwneud (h.y. rheoli'r dyrfa, staffio'r mynedfeydd a'r allanfeydd, rheoli mynediad i atyniadau/gweithgareddau, cylchwylio mannau cyhoeddus, diogelu mannau gwaharddedig, diogelu peryglon, dyletswyddau parcio ceir ac ati).
- Darparu stiwardiaid ychwanegol, os yw'r digwyddiad i barhau am sawl awr, i ganiatáu i eraill gael egwyl bwyd ac ati.
- Ystyried a oes raid i stiwardiaid gael eu trwyddedu gan Awdurdod y Diwydiant Diogelwch (dylech ganiatâ am hyn yn eich cyllideb). (Gweler Darllen Cymeradwy).
- Sicrhau bod stiwardiaid wedi eu hyfforddi'n iawn a'u bod yn gymwys i gyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol.
- Rhowch ddatganiad ysgrifenedig i stiwardiaid o'u dyletswyddau, a lle bo'n briodol, rhestr wirio a chynllun o brif nodweddion y safle.
- Rhoi cyfarwyddyd terfynol i stiwardiaid ar eu dyletswyddau ar ddiwrnod y digwyddiad, yn enwedig ynglŷn â chysylltu gyda goruchwylwyr ac eraill os digwydd argyfwng.
- Sicrhau bod stiwardiaid yn hawdd eu hadnabod h.y. yn gwisgo lliw penodol neu siacedi neu dabardau tra amlwg.
- Sicrhau bod stiwardiaid yn gwybod cynllun y safle a'u bod yn gallu cynorthwyo'r cyhoedd drwy gynnig gwybodaeth am y cyfleusterau sydd ar gael, gan gofio yn enwedig y rhai hynny sydd ag anableddau.
- Sicrhau bod stiwardiaid yn ymwybodol o leoliad y mynedfeydd a'r allanfeydd sydd i'w defnyddio ar y dydd, y trefniadau cymorth cyntaf ac offer ymladd tân.
- Darparu lampau ar gyfer y stiwardiaid os yw'r digwyddiad yn debygol o barhau wedi iddi dywyllu, a phrofi'r rhain ac unrhyw offer arall (e.e. radios) a'u rhoi iddynt cyn y digwyddiad.
- Sicrhau bod stiwardiaid yn gwybod, yn deall, a'u bod wedi ymarfer eu dyletswyddau penodol mewn argyfwng a'u bod yn ymwybodol o'r trefniadau ar gyfer gwagio'r cyhoedd o'r safle, gan gynnwys defnyddio negeseuon cod.

**Diogelwch**

Rhaid i staff diogelwch mewn digwyddiadau gael eu cofrestru gydag Awdurdod y Diwydiant Diogelwch (SIA). Am gyngor ar ddiogelwch mewn digwyddiadau ewch i: www the-sia.org.uk.

Rhaid i drefnwyr ystyried unrhyw fesurau diogelwch arbennig sy'n angenrheidiol gan gynnwys dros nos. Gallai'r rhain godi oherwydd amgylchiadau megis presenoldeb enwogion neu symiau mawr o arian yn y digwyddiad. Rhaid i'r holl staff diogelwch wisgo bathodynnau SIA gydol yr amser.

Diffinnir diogelwch fel:

• Amddiffyn yn erbyn mynediad diawdurdod, meddianiad neu anhrefn.
• Amddiffyn eiddo rhag dinistr a pherygl
• Amddiffyn unigolion rhag ymosodiad.

**Swyddfa Cofnodion Troseddol (CRB)**

Mae'r Swyddfa Cofnodion Troseddol (CRB), yn ymddwyn fel siop-un-stop ar gyfer mudiadau drwy wirio cofnodion yr heddlu ac, mewn achosion perthnasol, wybodaeth sydd gan yr Adran Iechyd ac Adran Addysg a Sgiliau. Mae dwy lefel o wiriadau CRB ar gael ar hyn o bryd; datgeliad safonol a datgeliad manylach.

Rhan o rôl y Swyddfa Cofnodion Troseddol yw lleihau'r perygl o gamddefnyddio drwy sicrhau nad yw pobl anaddas yn gallu gweithio gyda phlant ac oedolion bregus. Os byddwch chi neu'ch staff yn dod i gysylltiad uniongyrchol â phlant neu oedolion bregus yn eich digwyddiad rydym yn argymell eich bod yn cwblhau ffurflen gais am ddatgeliad.

Am wybodaeth bellach am y CRB neu i gwblhau ffurflen gais ewch i: www.crb.gov.uk.

2.13 **Cysylltiadau**

***Materion i drefnwyr eu hystyried:***

- Sicrhau bod gennych drefniadau wrth gefn digonol, sydd wedi eu cyfathrebu i'r holl stiwardiaid a phersonél eraill, ac sydd wedi eu hysgrifennu lle bo angen.
- Darparu cyswllt radio personol rhwng y swyddog diogelwch a'r uwch stiwardiaid ac unrhyw berson arall sy'n gyfrifol am roi'r trefniadau wrth gefn ar waith.
- Os yw ffonau symudol i'w defnyddio, ystyried pa mor dda yw'r rhwydwaith/mannau di-signal, y potensial i orlwytho'r rhwydwaith ac ati.
- Ystyried darparu system cyfarch cyhoeddus (PA) ar gyfer cyhoeddiadau a chyfarwyddiadau i'r staff a'r cyhoedd. Ar gyfer digwyddiadau llai o faint (neu i'w gael wrth gefn) gallai corn siarad symudol fod yn ddigonol.
- Sicrhau fod batris wedi eu gwefrio'n llawn a bod stiwardiaid wedi eu hyfforddi ar sut i ddefnyddio offer cyfathrebu a'u bod yn gwybod ble maent.
- Sicrhau fod y system cyfarch cyhoeddus wedi ei phrofi'n iawn cyn y digwyddiad. Dylai bod ganddi gyflenwad pŵer wrth gefn i ganiatáu iddi weithio'n gywir pe digwydd argyfwng. Dylai bod modd ei chlywed yn glir ym mhob rhan o'r lleoliad.
- Ystyried lefelau'r sŵn cefndirol wrth benderfynu ar ddulliau cysylltu, ac os bydd rhaid, defnyddio pensetiau i amddiffyn y clustiau.



- Ystyried sefydlu ystafell reoli ar y safle sydd wedi ei staffio'n barhaol yn ystod y digwyddiad, ble mae teliffon i:
  a. Fonitro'r digwyddiad gan roi rhybudd buan o unrhyw broblemau
  b. Reoli unrhyw ddigwyddiadau
  c. Ymddwyn fel canolfan ar gyfer unrhyw system gyfathrebu

2.14 **Cyfleusterau lles**

***Materion i drefnwyr eu hystyried:***

Mae'r gofynion o ran darparu cyfleusterau lles (gan gynnwys toiledau) ar gyfer pobl sydd 'yn y gwaith' yn cael eu nodi yn Rheolaethau Gweithle (Iechyd, Diogelwch a Lles) 1992. Wrth reswm, y tu hwnt i hyn, priodol fyddai darparu nifer a math digonol o doiledau ar gyfer y niferoedd a ddisgwylir yn y digwyddiad gan gynnwys darpariaeth ar gyfer pobl ag anableddau. Ar gyfer digwyddiadau trwyddedig, dylid cytuno ar niferoedd a lleoliad y toiledau gyda'r Awdurdod Trwyddedu. Mae'r tabl isod yn dangos canllaw gyffredinol ar gyfer digwyddiadau cerddorol. Byddai angen llai o gyfleusterau ar ffeiriau gwledig, garddwesti a digwyddiadau byr eraill ond byddai angen rhagor o gyfleusterau ar gyfer digwyddiadau ble mae llawer o yfed neu bobl yn gwersylla.

| **Ar gyfer digwyddiadau ble mae'r giât yn agored am 6 awr neu ragor** | | **Ar gyfer digwyddiadau ble mae'r giât yn agored am lai na 6 awr** | |
|---|---|---|---|
| Merched | Dynion | Merched | Dynion |
| 1 toiled i bob 100 o ferched | 1 toiled i bob 500 o ddynion, hefyd 1 wrinal i bob 150 o ddynion | 1 toiled i bob150 o ferched | 1 toiled i bob 600 o ddynion, hefyd 1 wrinal i bob 175 o ddynion |



- Yn ddelfrydol defnyddiwch doiledau sydd wedi eu cysylltu i'r prif gyflenwad ond mae'n bosib y bydd angen darparu unedau dros dro. Os yw unedau annibynnol o'r prif gyflenwad i'w defnyddio rhaid trefnu i waredu gwastraff mewn modd diogel a hylan.
- Ystyriwch leoliad, mynediad, adeiladwaith, y math o gyfleusterau dros dro, goleuo ac arwyddion.
- Darparu cyfleusterau golchi dwylo (dim llai nag 1 i bob 10 toiled) gyda dŵr cynnes, sebon a chyfleusterau sychu dwylo. Dylid darparu llieiniau antiseptig neu sebon gwrthfacterol pan nad oes dŵr cynnes ar gael.
- Sicrhau bod toiledau yn cynnal a chadw, eu trwsio a'u gwasanaethu'n rheolaidd gydol y digwyddiad i sicrhau eu bod yn ddiogel, yn lân ac yn hylan.
- Sicrhau bod lloriau, rampiau a grisiau'r unedau yn sefydlog ac nad oes perygl o lithro arnynt.
- Darparu lleoliad ble gall pobl wneud ymholiadau ynglŷn â phlant ar goll, eiddo coll a gwybodaeth am y digwyddiad - yr Ystafell Reoli o bosib.
- Darparu cyflenwad o ddŵr yfed o fewn cyrraedd hwylus i'r gynulleidfa a phob cyfleuster arlwyo.
- Darparu nifer ddigonol o finiau sbwriel o amgylch y safle lle bydd eu hangen fwyaf
- Gwneud trefniadau i wagio'r biniau yn rheolaidd, ac i gael gwared neu ailgylchu'r gwastraff ar ddiwedd y digwyddiad.